OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 No. 999

# Gorchymyn Deddf Iechyd 1999 (Practisiau Deiliad-cronfa) (Trosglwyddo Asedau, Arbedion, Hawliau a Rhwymedigaethau a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2000.

## RHAN VI

*DARPARIAETHAU EITHRIO*

**Ceisiadau heb eu cwblhau ynglŷn ag arbedion**

**15.**—(1) Bydd unrhyw geisiadau a wnaed cyn 1 Ebrill 2000 i'r Awdurdod Iechyd i ddefnyddio'r swm dynodedig ar gyfer diben a bennwyd yn rheoliad 25(2) o Reoliadau 1996 er gwaethaf diddymu'r darpariaethau deiliad-cronfa yn cael eu penderfynu gan yr Awdurdod Iechyd, a bydd y penderfyniad hwnnw'n ddarostyngedig i hawl apêl, yn unol â rheoliad 25(**1**).

(2) Bydd unrhyw apêl a wnaed cyn 1 Ebrill 2000 i'r Cynulliad Cenedlaethol, neu pan fo'r hawl i apelio i'r Cynulliad Cenedlaethol yn codi ar 1 Ebrill 2000 neu wedi hynny, yn erbyn gwrthodiad yr Awdurdod Iechyd i gydsynio â defnyddio unrhyw ran o'r swm dynodedig at ddiben a bennwyd yn rheoliad 25(2) o Reoliadau 1996 er gwaethaf diddymu'r darpariaethau deiliad-cronfa yn cael ei phenderfynu gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â rheoliad 25.

(3) At ddibenion paragraffau (1) a (2), bydd paragraffau (3) i (7) o reoliad 25 o Reoliadau 1996 yn parhau i fod yn gymwys fel pe na bai'r darpariaethau deiliad-cronfa wedi'u diddymu.

(**1**) Diwygwyd rheoliad 25 gan O.S. 1997/747, 1997/1678, 1998/693 a 1999/261.